Yr Uned Bysgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

15 Tachwedd 2013

**Parthed: Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru "Adolygiad pellach o'r eithriadau i'r rheoliadau ynghylch uchafswm hyd cychod pysgota yn y parth 0 – 6 milltir forol (nm)"**

## Sylwadau Cryno

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ail ddogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar ddileu'r eithriadau Hawliau Mynediad Hanesyddol cyfredol yng Nghymru.

Rhoddir crynodeb o brif bwyntiau Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr adran agoriadol hon. Yna, byddwn yn darparu adran ar warchod natur yn ymateb i gynnwys y ddogfen ymgynghorol ac atodiad yn cynnwys holiadur yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Prif Bwyntiau

1. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi dileu'r Hawliau Mynediad Hanesyddol am resymau'n ymwneud â gwarchod natur.

2. Mae adolygiad y Gweinidogion o ddeddfwriaeth pysgodfeydd Cymru yn cynnig cyfle unigryw i Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru fabwysiadu dull newydd o asesu ac yn sgîl hynny, o reoli effeithiau pysgodfeydd Cymru mewn modd cynaliadwy ac ar sail eu hecosystemau.

## Gwarchod Natur

### Cefndir

3. Yn 2012, aeth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, cyrff rhagflaenol Cyfoeth Naturiol Cymru, ati'n annibynnol i wneud sylwadau ar yr ymgynghoriad ar yr adolygiad cyntaf, *'Adolygiad o'r eithriadau i'r rheoliadau ynghylch*

Ffôn/Tel 02920 466047 Ffacs/Fax 02920 466413
Ebost/Email ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Natural Resources Wales, Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

*uchafswm hyd cychod pysgota yn y parth 0-6nm'*. Cefnogodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Cyngor Cefn Gwlad fwriad Llywodraeth Cymru i ddileu Hawliau Mynediad Hanesyddol nifer cyfyngedig o gychod pysgota mwy o faint sydd ar hyn o bryd yn cael pysgota yn nyfroedd glannau Cymru.

**4.** Yn dilyn cyhoeddi'r 'Crynodeb o Ymatebion' i'r ymgynghoriad cyntaf ar ddileu Hawliau Mynediad Hanesyddol ym mis Awst 2012, penderfynodd Llywodraeth Cymru fod angen cyfnod o ymgynghori pellach. Cynhelir yr ail ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau bod gan y Gweinidog ddealltwriaeth mor llawn â phosibl o'r sefyllfa gyfredol a'r effeithiau a fyddai'n dilyn yn sgîl dileu Hawliau Mynediad Hanesyddol.

**5.** Mae'r ail ymgynghoriad ar yr Hawliau Mynediad Hanesyddol yn ystyried yr effeithiau ar y meysydd canlynol:

- Cydraddoldeb yn y sector pysgota
- Stociau pysgod
- Yr amgylchedd morol
- Cymdeithasol-economaidd

**6.** Mae cynigion yn yr ail ymgynghoriad yr un fath â rhai'r ymgynghoriad cyntaf gan ychwanegu'r ddau gynnig canlynol:

1. Rhaid i bob offer pysgota ar gychod dros y maint a bennwyd neu'r cyfyngiadau ar gapasiti fod wedi'i gysylltu a'i gadw ar y cwch pa bryd bynnag y bydd y cwch yn rhanbarth y De neu'r Gogledd. Ni fydd hyn yn berthnasol i gychod dyframaeth na chychod gwialen a lein.

2. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried dileu'r Hawliau Mynediad Hanesyddol yn raddol yn y parth 0-3nm 6 mis wedi i'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig ddod i rym ac yn y parth 3-6nm 12 mis wedi i'r is-ddeddfwriaeth ddod i rym.

Ffôn/Tel 02920 466047 Ffacs/Fax 02920 466413
Ebost/Email ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Natural Resources Wales, Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

**Ystyriaethau Amgylcheddol**

**7.** Mae'n bosibl y bydd cychod mwy o faint yn cael mwy o effaith amgylcheddol oherwydd eu maint a'u pŵer na chychod llai am y rhesymau canlynol:

- Fel rheol, gall cychod mwy pwerus bysgota am fwy o ddiwrnodau bob blwyddyn am fod y môr a thywydd garw yn cael llai o effaith arnynt, ac mae ganddynt yr offer i ymdopi â theithiau pysgota llawer hwy.

- Mae potensial cychod i ddal pysgod yn cynyddu yn ôl maint y cwch. Gall cychod mwy o faint ddal, cario a phrosesu mwy o bysgod cyn bod angen iddynt ddychwelyd i'r lan.

- Fel arfer, gall cychod mwy pwerus gario a defnyddio mwy o offer pysgota mwy o faint.

- Gall cychod mwy o faint a mwy pwerus bysgota dros bellteroedd mwy a gallant lusgo offer dros fwy o fathau o gynefinoedd gwely môr na chychod llai o faint a llai pwerus.

- Mae cychod mwy o faint a mwy pwerus sy'n defnyddio offer llusgo mewn dyfroedd bas yn gwahaniaethu llai rhwng y pysgod a ddaliant ac yn fwy tebygol o ddal rhywogaethau mudol gwarchodedig a rhywogaethau rhy fach.

**8.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gefnogi'r cynnig i ddileu Hawliau Mynediad Hanesyddol am resymau'n ymwneud â gwarchod natur. Bydd cyfyngu ar uchafswm maint y cychod sy'n cael gweithredu yn y parth 0 – 6 nm yn cynnig mwy o ddiogelwch i nodweddion a allai fod yn sensitif i effeithiau offer pysgota trymach, neu gynyddu'r ymdrech bysgota neu hyd amser pysgota.

**9.** Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau penodol i'w gwneud o ran gwarchod natur mewn perthynas â'r ddau gynnig ymgynghori ychwanegol a amlinellir ym mharagraff 7.

Ffôn/Tel 02920 466047 Ffacs/Fax 02920 466413
Ebost/Email ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Natural Resources Wales, Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

10. Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrthwynebiad i ymestyn yr eithriadau i weithredwyr cychod pysgod cregyn a chychod pysgota'r Gorchymyn Pysgodfa Unigol a/neu'r Gorchymyn Rheoleiddio Pysgodfa sydd eisoes ar gael yng ngogledd Cymru i weithredwyr tebyg yn y De.

11. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwerthfawrogi y bydd yn rhaid i weithredwyr cychod cregyn gleision yn ne Cymru barhau i wneud cais i Lywodraeth Cymru am ganiatâd Is-ddeddf 40 i gael pysgota am bysgod cregyn *Molluscan* dwygragennog wrth weithredu yn ardal y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr blaenorol ar gyfer de Cymru. Mae hyn yn darparu trefn ar gyfer cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd os ceir pysgodfa mewn Safle Morol Ewropeaidd.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

12. Ym mis Gorffennaf 2013, cefnogodd Cyfoeth Naturiol Cymru gasgliadau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Llywodraeth Cymru a ystyriai na fyddai dileu'r eithriadau i'r Hawliau Mynediad Hanesyddol yn effeithio'n sylweddol ar nodweddion Safleoedd Morol Ewropeaidd Cymru. Nid yw'r cynigion ychwanegol yn yr ymgynghoriad newydd hwn yn newid y cyngor hwnnw.

13. Ystyriwyd mater dadleoli yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 2013 Llywodraeth Cymru gan y byddai'r newid yn y ddeddfwriaeth a argymhellir yn yr ymgynghoriad hwn yn arwain at ddadleoli cychod mwy o faint o'r ardal 0-6nm. Gallai dadleoli o'r fath arwain at gynyddu'r ymdrech bysgota ar nodweddion gwarchodedig y tu allan i'r parth 6nm. I liniaru'r effaith bosibl hon, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro gweithgaredd pysgota cychod a ddadleolir i sicrhau nad yw'r ymdrech bysgota a'r effaith gysylltiedig yn cyrraedd lefelau a fyddai'n peri pryder.

14. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i ddarparu manylion mwy penodol ynglŷn â'r rhaglen fonitro arfaethedig i sicrhau nad yw dadleoli'r ymdrech bysgota yn mynd i gyrraedd lefelau a allai achosi effeithiau niweidiol i nodweddion gwarchodedig.

**Stociau Pysgod a'r Amgylchedd Morol**

15. Yn yr ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth fanwl am y sail amgylcheddol dros eu cynigion. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar

Ffôn/Tel 02920 466047 Ffacs/Fax 02920 466413
Ebost/Email ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Natural Resources Wales, Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

effeithiau offer pysgota amrywiol ar stociau pysgod a’r amgylchedd morol. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru wybodaeth wyddonol helaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru sy’n darparu tystiolaeth ar effeithiau posibl offer pysgota ar stociau pysgod a’r amgylchedd morol.

**16.** Gellid defnyddio’r gwaith ar sensitifrwydd pysgodfeydd yng nghynllun peilot FishMap Môn sydd ar y gweill gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd o dan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop fel tystiolaeth o effeithiau posibl offer pysgota trymach a mwy o faint ar gynefinoedd gwarchodedig.

**Rheoli effeithiau amgylcheddol yn nyfroedd Cymru.**

**17.** Yn yr ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn nodi fod mesur maint a phŵer cychod yn aml yn cael ei ddefnyddio fel dull rheoli effeithiol ar gyfer pennu maint dalfeydd ac effeithiau amgylcheddol posibl gweithgareddau pysgota.

**18.** Mae’r Offeryn Statudol newydd wedi’i gydgrynhoi a argymhellir gan yr ymgynghoriad hwn, *Gorchymyn Pysgod Môr (Ardaloedd Môr Penodedig) (Gwahardd Cychod Pysgota Penodedig) (Cymru) 2014* yn dileu eithriadau cyfredol ac yn rhesymoli’r amodau sy’n weddill yn Is-ddeddfau 9 a 38 y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr blaenorol. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau’n parhau o ran y darpariaethau, yn dibynnu ar y lleoliad daearyddol yng Nghymru.

**19.** Deellir bod Llywodraeth Cymru, yn rhan o’u hadolygiad parhaus o ddeddfwriaeth pysgodfeydd Cymru, yn bwriadu cynnal ymarfer pellach i sicrhau tryloywder a chysondeb o ran y darpariaethau mynediad amrywiol sy’n bodoli ar hyn o bryd rhwng gogledd a de Cymru. Byddai hyn yn pennu set gyson o ddarpariaethau mynediad drwy Gymru gyfan.

**20.** Mae’r dull o gyfyngu ar fynediad i bysgodfeydd yn ôl pŵer a maint y cwch wedi cael ei ddefnyddio’n effeithiol lle ceir prinder gwybodaeth am effeithiau amgylcheddol posibl. Fodd bynnag, mae cyfle i Lywodraeth Cymru symud at ddull rheoli mwy gwybodus ar gyfer asesu effeithiau amgylcheddol gweithgareddau pysgota. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i archwilio’r dull hwn o reoli ymhellach gan na fydd cyfyngu ar faint neu bŵer cychod o anghenraid yn gweddu i bob amgylchiad. Er enghraifft, mae’n bosibl na fydd cwch cewyll mawr yn cael mwy o effaith amgylcheddol na chwch cewyll bach yn rhai o ddyfroedd y glannau.

Ffôn/Tel 02920 466047 Ffacs/Fax 02920 466413
Ebost/Email ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Natural Resources Wales, Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP

**21.** Er mwyn rheoli pysgodfeydd Cymru yn gynaliadwy, gallai Llywodraeth Cymru asesu effeithiau gweithgareddau pysgodfeydd yn seiliedig ar y gwaith ar sensitifrwydd pysgota a ddatblygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chynllun peilot FishMap Môn. Byddai hyn yn helpu i bennu lefelau ymdrech pysgota y gall cynefinoedd amrywiol eu cynnal cyn wynebu unrhyw effaith niweidiol.

**22.** Byddai cyfuno'r gwaith hwn â gwaith sydd ar y gweill ar asesu stociau pysgod a physgod cregyn yn unol ag ymrwymiadau'r polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn galluogi Cymru i arwain y byd o ran rheoli ein pysgodfeydd mewn modd gwirioneddol dryloyw a chynaliadwy.

**23.** Byddai symud i fodel rheoli pysgodfeydd yn seiliedig ar ymdrech wedi'i rheoli, gwybodaeth ynglŷn â rhyngweithiad offer â nodweddion gwarchodedig ac asesu stociau yn caniatáu i benderfyniadau deallus gael eu gwneud mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar gyfer Safleoedd Morol Ewropeaidd Cymru.

I gloi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynigion fel y'u nodwyd yn y ddogfen ymgynghori ar ddileu Hawliau Mynediad Hanesyddol o ddyfroedd glannau Cymru. Byddai staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn falch o rannu unrhyw wybodaeth neu gyfeiriadau gwyddonol yn dystiolaeth i gefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn barod i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r dull o reoli effeithiau amgylcheddol pysgodfeydd Cymru a drafodwyd yn yr adran flaenorol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, mae croeso i chi gysylltu â Colin Charman, Cynghorwr Pysgodfeydd Môr colin.charman@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Yr eiddoch yn gywir

Ceri Davies
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

Ffôn/Tel 02920 466047 Ffacs/Fax 02920 466413
Ebost/Email ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Natural Resources Wales, Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Cyfoeth Naturiol Cymru

Ffôn/Tel 02920 466047 Ffacs/Fax 02920 466413
Ebost/Email ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Natural Resources Wales, Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English